# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-08)

### SLC149

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008

-

gweithredu newid yng Nghymru i reoliadau'r UE ar deunydd risg penodedig i godi'r oedran y caiff asgwrn cefn anifeiliaid buchol ei ddynodi fel deunydd risg penodedig o 24 mis i 30 mis. (Mae hyn yn dychwelyd y terfyn oedran ar gyfer asgwrn cefn anifeiliaid buchol yn y DU i'r hyn yr ydoedd cyn mis Mai 2006 pan gafodd rheolau deunyddiau risg penodedig eu cysoni â'r rhai mewn Aelod-wladwriaethau eraill fel rhan o'r broses ar gyfer codi'r gwaharddiad ar allforio cig eidion a chynnyrch cig eidion o'r DU).

### Gweithdrefn:  Negyddol

Gofynnir i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi):- (drafftio diffygiol) a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) (anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg):- Mae Rheoliad 2(2)(a) yn cynnwys diffiniad newydd, sef "the amended Community TSE Regulations". Mae'r testun Cymraeg yn darparu mai'r ymadrodd yw "Rheoliad diwygiedig y Gymuned". Fodd bynnag, ym mharagraff 1(1) o destun Cymraeg yr Atodlen 6 newydd, ceir y geiriau "Reoliadau TSE y Gymuned fel y'i diwygiwyd" (the Community TSE Regulations as amended).

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ond nid yw'n bwriadu gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd gan bod y Rheoliadau yn mynd i gael eu dirymu a'u hail-wneud o fewn y 12 mis nesaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Ebrill 2008